Cynnal a Gwella'r Ysgolion
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

MEHEFIN 07

RHONDDA CYNON TAF

Cyflwyniad— Steve Lamb, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cynnal a Gwella'r Ysgolion

Mae blwyddyn academaidd arall yn brysur dod i'w therfyn ac mae mentrau newydd yn parhau i gyrraedd ein desgiau. Mae rhai yn mynd a dod, ond mae rhai eraill yn datblygu i fod yn elfennau sefydlog o'n gwaith. Her rheoli newid sy'n parhau, ac o'r ail fath yma, yw aildrefnu'r gweithlu.

Gyda chyhoeddi adroddiad LICC ynglŷn ag Effaith Ailfodelu'r Gweithlu ar Allu Disgyblion i Ddysgu a Chodi Safonau, gallwn ni weld bod y pwyslais yn symud oddi ar faterion personél i faterion gwella ysgolion.

Mae'r pwyslais newydd yma'n amser da i edrych yn ôl a rhoi diolch i'r garfan cydlynu materion newid, Gareth Jones a Greg Reynolds, penaethiaid ar secondiad, ac Elizabeth Clarke, swyddog cynorthwyol. Mae'r tri ohonon nhw naill ail wedi mynd yn ôl i'w swyddi neu symud ymlaen. Dymunwn yn dda iddyn nhw i gyd.

Yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, bydd gofyn inni bennu ffynonellau cymorth newydd ar gyfer symud ymlaen i ddiwallu anghenion dysgu ein plant a phobl ifainc.

Y Wennol Ddarllen – adnodd ffonig newydd yn y Gymraeg ar gyfer ysgolion!

Mewn ymateb i'r galw am adnodd dysgu newydd i roi cymorth i blant a chanddyn nhw anghenion llythrennedd, mae'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu wedi creu 'Y Wennol Ddarllen—Blendiau c-ll' - adnodd ffoneg newydd i roi cymorth i ddarllenwyr sy'n ei chael hi'n anodd i feistroli'r grefft o gymysgu seiniau (rhoi seiniau at ei gilydd). Mae'r ffeil yn cynnwys cyfres o daflenni gwaith amryw synhwyrau, tystysgrifau a gemau yn ogystal â syniadau ar gyfer strategaethau addysgu.

Bydd adnodd dysgu 'Y Wennol Ddarllen - Blendiau c-ll' yn cael ei ddosbarthu i ysgolion

cyfrwng Cymraeg Rhondda Cynon Taf i gyd cyn diwedd Tymor yr Haf.

Bydd cyfle i AALl eraill i brynu copïau o'r 'Wennol Ddarllen'.

Diolch i Rhiannon Humphreys, Athrawes Cynnal Iaith a Rachel Monkton, Cymorth Gweinyddol am eu cymorth a'u brwdfrydedd o ran paratoi'r adnodd ffoneg newydd yma yn y Gymraeg.

Ceri Jones, SEN Co-ordinator (01443 744357)

Ysgolion sy'n Ganolbwynt i'r Gymuned

Gwobr ar gyfer Gwaith Rhyng-genhadlaeth

Mae Prosiect Rhwng-genhadlaeth Presennol a Gorffennol Cwmaman wedi ennill gwobr Chartered Institute of Housing yng ngwobrau Dathlu Arferion Da yng Nghymru ynghylch materion Tai yng nghategori Materion Tai a'r Gymuned. Mae'r prosiect yn cynnwys disgyblion o Ysgol Gynradd Glynhafod a phreswylwyr hyn cyfadeilad tai lloches Cwrt Alun Lewis. Mae Wendy Morgan, Gweithiwr Clwstwr, Rhaglen Ysgolion sy'n Ganolbwynt i'r Gymuned yn rhan o waith trefnu'r prosiect.

Mae'r plant yn meithrin sgiliau cymdeithasu pwysig ac mae'r ddwy ochr yn dechrau deall ei gilydd yn ogystal â chael gwared â'r camdybiaethau sy gyda nhw.

Mae Simon Roberts, Pennaeth Ysgol Gynradd Glynhafod, o'r farn bod bod y disgyblion wedi cael budd mawr o'r cynllun. Maen nhw wedi dysgu rhagor am hanes lleol drwy siarad â phobl oedd yn byw yn y pentref yn ystod cyfnod y pyllau glo. Yn anad dim, mae'r prosiect wedi dangos bod cyfeillgarwch, ymddiriedaeth a hyder yn bosibl ar naill ben y sbectrwn rhyng-genhedlaeth.

Derek James (01443 744010)

Dolennau cyswllt: Gwasanaethau Cynnal a Gwella'r Ysgolion:

Gwella'r Ysgolion
01443 744035/6
(Cynradd ac Uwchradd)

Materion Prif Ffrwd
01443 744015

ESIS
01443 827500

Sort Orau
01443 744386

Llywodraethu a Chysylltiadau
01443 744180

Gwasanaeth Cerdd
01443 744017

Cylch Gwella'r Ysgolion: Cynrychiolwyr y Penaethiaid

Gill Coleman – Ysgol Gynradd Dinas Isaf
Lisa Bailey – Ysgol G Trerobart
Andrew Manley – Ysgol G Hirwaun
Marian Roberts – Ysgol GG Bodringallt
Pat O'Malley – Ysgol G Parc-y-Darren
David Davies – Ysgol G y Cefn
Gareth Evans—Y G Y Dolau
Philippa Thomas— Y Comin
Carol Parker— Y B Cwmaman
Ann Morris – Ysgol Gynradd Llanhari
Elaine Keeble – Tonyrefail
David Murphy – Ysgol Ioan Fedyddiwr
Rosemary Ripley – Bryncelynnog
Stephan Parry – Tonypandy-
Ian Machin – Ysgol Aberdâr y Bechgyn

Gwasanaeth Cerdd Rhondda Cynon Taf

Nodwch, bydd gweithgareddau Gwasanaeth Cerdd ar nos Iau, Gwener a Sadwrn yn dechrau yn Ysgol Gyfun Coed-y-lan fis Medi 2007.

Rachel Kilby - Gwasanaeth Cerdd **01443 744017**

MYFYRIWR GORAU'R FLWYDDYN 2007, GWOBR GRIFFIN MILL

Bu myfyrwyr gorau yn wynebu'r gwynt a'r glaw i wneud argraff dda ar Garejis Griffin Mill mewn ymgais i ennill car. Roedd ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf i gyd wedi enwebu disgybl disglair y flwyddyn yr ysgol a daeth y cylch at ei gilydd am y tro cyntaf ar gyfer diwrnod antur cwmni HCE yng Ngwesty Bro Morgannwg.

Cafodd y myfyrwyr eu rhannu'n dimoedd—coch, melyn a glas a chymryd rhan mewn cyfres o weithgareddau meithrin carfan, gan gynnwys gyrru cerbydau 4x4, adeiladu fframiau-A, darllen mapiau, gêm ddifyr 'bugail a defaid', gan ddefnyddio synau anifeiliaid yn unig i symud aelodau o'ch carfan sydd â mygydau dros y llygaid i fannau penodol.

Gyda nifer o fathemategwyr yn cystadlu'r flwyddyn yma, roeddech chi'n gallu gweld eu meddyliau rhesymegol yn dadansoddi'r gwahanol heriau.

Bydd yr 19 o fyfyrwyr yn cwrdd unwaith yn rhagor yn ystod cinio gwobrwyo i'w gynnal yng Ngwesty McDonald House fis Medi ar gyfer cyhoeddi enwau'r enillwyr rhanbarthol ac enillydd yr wobr. Bydd yr enillydd yn cael car Peugeot newydd sbon trwy garedigrwydd Griffin Mill.

Gareth Rees—Secondary School Improvement Officer

Cymdeithas Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBDA)

Mae John Wagstaff, Pennaeth Uned Atgyferio Disgyblion Tŷ Gwyn wedi'i ethol yn Gadeirydd SEBDA Cymru yn ddiweddar. Dyma gymdeithas ar gyfer pobl sy'n gweithio â phlant a chanddyn nhw broblemau ymddygiad. Mae hon yn swydd uchel ei bri gyda chymdeithas genedlaethol. John yw cadeirydd cyntaf y gymdeithas. Mae Peter Thomas ac Eleanor Aubrey yn aelodau o bwyllgor Cynnal Ymddygiad.

Unwaith yn rhagor rydyn ni ar y blaen o ran gwaith ymchwil a datblygu yn y maes yma.

Ceirion Williams 01443 744398

Gweithwyr Ieuenctid

Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid, gyda chymorth Partneriaeth 14-19 Rhondda Cynon Taf, yn penodi 2 weithiwr ieuenctid newydd maes o law.

Bydd un gweithiwr yn ymuno â Thîm Achredu Gwaith Ieuenctid ac yn gweithio ar gynllun prawf *Demonstrating Success Initiative,* LICC. Mae un elfen o'r cynllun yn ymwneud â defnyddio adnoddau i fesur gallu emosiynol. Bydd y gweithiwr arall yn ymuno â Charfan Gwobr Dug Caeredin ac yn rhoi cymorth i ddatblygu'r Wobr mewn ysgolion. Mae mwy a mwy o blant wedi bod yn manteisio ar Wobr Dug Caeredin mewn ysgolion. Bydd y gweithiwr newydd yn galluogi'r garfan i roi cymorth ychwanegol i'r sawl sy'n cymryd rhan.

Ron Jones, Adult Education (01443 744105)

Carfan Sort Orau

Mae Cynllun SAFF (Sylweddau a'r Ffeithiau) wedi'i ymestyn ledled Rhondda Cynon Taf yn ystod y flwyddyn academaidd yma. Dyma ymateb amlasiantaeth ar gyfer cynnal addysg materion camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion cynradd ledled Rhondda Cynon Taf. Dyma gynllun sy'n bartneriaeth rhwng Sort Orau (carfan addysg materion camddefnyddio cyffuriau), Heddlu De Cymru (Rhaglen Graidd Cymru Gyfan), ESIS a chynrychiolwyr o blith penaethiaid ysgolion cynradd. Mae i'r rhaglen 6 sesiwn 'rhyngweithiol' sy'n cyflwyno nifer o agweddau ar faterion cymunedau diogel i ddisgyblion. Bydd athrawon a swyddogion yr heddlu'n cynnal y sesiynau yma ar y cyd, gyda chymorth carfan Sort Orau.

Mae'r cynllun yn annog rhieni i ddod yn rhan o bethau drwy ddefnyddio cyfuniad o weithgareddau gwaith cartref a chael rhieni i fynychu achlysur dathlu SAFF sy'n nodi diwedd y Cynllun.

Mae dathliad SAFF yn ffordd dda i wobrwyo disgyblion am eu gwaith caled yn ystod cyfnod y cynllun, ac felly mae'r disgyblion i gyd yn cael tystysgrif SAFF a chrys-t SAFF, trwy garedigrwydd cwmni Costain, un o bartneriaid y Cynllun yn y gymuned. Mae'r achlysur dathlu'n gallu bod yn rhan o achlysuron fesul clwstwr sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion uwchradd priodol, neu achlysuron cyflwyno sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion unigol.

Bydd y 2 glwstwr arall yn dod i ben yn ystod y tymor yma, gan ofalu bod pob clwstwr yn Rhondda Cynon Taf yn rhan o gynllun SAFF. Mae'r cynllun wedi ymrói i'r egwyddor o ddwyieithrwydd ac felly mae gwersi'n cael eu cynnal yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl y gofyn.

Galwch heibio i www.getsortedwales.co.uk

Os hoffech chi gyfrannu at rifyn nesaf y cylchlythyr - rhoi'r newyddion diweddaraf ynghylch cynllun neu wybodaeth hoffech chi'i rhannu gyda ni er enghraifft - ffoniwch Kris Oakey – 01443 744036 – yn Nhy Trevithick.